NORTH WALES **SKILLS**
portal
**SGILIAU** GOGLEDD CYMRU

# Pecyn Gwybodaeth *Rhanddeiliad*

Gwybodaeth i'n rhanddeiliaid am
Portal Sgiliau Gogledd Cymru.

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

Datblygwyd Portal Sgiliau Gogledd Cymru gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a phartneriaid allweddol.

# Cynnwys

1. ......................................................................Rhagair
2. ......................................................................Cyd-destun
3. ......................................................................Canfyddiadau Ymchwil i'r Farchnad
4. ......................................................................Trosolwg o'r Portal
5. ......................................................................Llunio'r Portal
6. ......................................................................Amserlen
7. ......................................................................Negeseuon Allweddol
8. ......................................................................Camau nesaf
9. ......................................................................Cysylltiadau Defnyddiol

# *Rhagair*

Fel un o'n rhanddeiliaid gwerthfawr, rydym yn hynod ddiolchgar am eich cefnogaeth i ddatblygu Portal Sgiliau Gogledd Cymru (Portal). Mae eich cyfraniad a'ch adborth wedi bod yn hollbwysig, ac mae'r tîm cyfan yn ddiolchgar am yr amser a'r adnoddau rydych wedi'u neilltuo i gefnogi ei ddatblygiad.

Fodd bynnag, nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto, ac wrth i ni baratoi ar gyfer y lansiad cyhoeddus ddechrau 2025, rydym angen adborth pellach ar sut i wneud y Portal mor hawdd â phosibl i'w ddefnyddio.

Bydd y pecyn gwybodaeth i randdeiliaid yma'n rhoi gwybodaeth allweddol i chi ar gyfer cam nesaf lansio'r Portal. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

# Cyd-destun

Yn gynharach yn 2023, cynhaliwyd arolwg ledled y rhanbarth i ddeall y problemau yr oedd cyflogwyr yn eu hwynebu wrth ddatblygu eu gweithlu.

**Canfu'r ymchwil mai'r prif heriau oedd y diffyg ymwybyddiaeth o'r cynigion a ddarparwyd, dyblygu ac anhawster dod o hyd i'r cyfleoedd amrywiol a oedd yn bodoli yn y rhanbarth.**

Yn dilyn yr arolwg hwn, cynhaliwyd ymchwil pellach gan wneud arolygon blynyddol, ymgysylltu â chyflogwyr yn barhaus a defnyddio canfyddiadau cenedlaethol, i greu darlun ehangach o fynediad at wasanaethau cyflogadwyedd. O ganlyniad, roedd patrwm cyson yn dangos yr angen i ddarparu platfform syml, hawdd ei ddefnyddio gyda chyfleoedd cyflogaeth, sgiliau, prentisiaeth a hyfforddiant lleol mewn un lle.

# Canfyddiadau *Ymchwil i'r Farchnad*

Y canlynol oedd y **prif** ganfyddiadau:

Mae 70% o gyflogwyr yn y rhanbarth yn wynebu heriau sgiliau.

Mae bron i 50% o bobl o dan 24 oed, yn teimlo nad ydynt yn barod ar gyfer y swydd neu'r cwrs y maent yn dymuno ei gael.

Dywedodd 47% o gyflogwyr mai 'anhawster dod o hyd i ddarparwyr hyfforddiant' oedd un o'r prif rwystrau i'r gweithlu.

Mae cynnydd mewn unigolion sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae'r uchod yn ganfyddiadau o Arolwg Cyflogwyr RSP (2023), Gwarant Pobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol (2024) a Cwestiwn Arolwg Omnibus (2023).

# *Trosolwg o'r Portal*

**Mae'r Portal yn dod â gwybodaeth ynghyd am swyddi gwag, prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi, a chymorth gyrfa sydd ar gael yng Ngogledd Cymru.**

Mae'n blatfform ar-lein, sy'n rhad ac am ddim, a fydd yn dangos y cyfleoedd rhanbarthol mewn un lle. Nod y Portal yw ei **gwneud yn haws** i bobl ddod o hyd i'r **cyfleoedd a'r gwasanaethau cymorth** hyn wrth **gysylltu unigolion gyda chyflogwyr a darparwyr**, a fydd, yn ei dro, yn mynd i'r afael â heriau sgiliau yn y rhanbarth

Yn dilyn ei lansiad, bydd y Portal yn **blatfform sy'n esblygu**. Bydd yn cael ei fesur, ei fonitro'n barhaus ar gyfer perfformiad, a'i addasu i ymateb anghenion defnyddwyr, gan sicrhau ei berthnasedd a'i effeithiolrwydd.

# *Llunio'r Portal*

## 1. Cyflwyno a Chydweithio

Gweithred: Darparwyr a phartneriaid yn cyflwyno digwyddiadau, newyddion, ac adnoddau i Portal Sgiliau Gogledd Cymru.
Nod: Sicrhau bod ystod gynhwysfawr o gyfleoedd cyflogaeth a sgiliau lleol

## 2. Hyrwyddo Defnydd

Gweithred: Annog unigolion a chyflogwyr i ddefnyddio Portal Sgiliau Gogledd Cymru
Nod: Cynyddu ymgysylltiad a defnydd o adnoddau'r Portal.

## 3. Casglu Adborth

Gweithred: Casglu adborth gan ddefnyddwyr a phartneriaid am eu profiadau
Nod: Deall anghenion a heriau defnyddwyr a darparwyr

## 4. Hysbysu Gwelliannau

Gweithred: Defnyddio'r adborth gyda chefnogaeth grŵp llywio, i wneud newidiadau a gwelliannau gwybodus i'r Portal.
Nod: Gwella'r Portal yn barhaus i wasanaethu defnyddwyr yn well a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ased rhanbarthol gwerthfawr.

# *Amserlen*

**Tachwedd 2024**

**Lansiad rhanddeiliaid:**
Lansiad y Portal yng nghyfarfod y Bwrdd.

**Rhagfyr 2024**

**Gweithredu Adborth:**
Casglu a defnyddio adborth rhanddeiliaid i ddatblygu'r Portal ymhellach.

**Ionawr 2025**

**Lansiad cyhoeddus:**
Lansiad y Portal i bawb gael mynediad.

# Negeseuon Allweddol

- Nod Portal Sgiliau Gogledd Cymru yw symleiddio mynediad at ddatblygu sgiliau lleol, cyfleoedd hyfforddi wrth hyrwyddo swyddi gwag a phrentisiaethau.
- Gall unigolion ddarganfod cyfleoedd lleol a chysylltu'n uniongyrchol â darparwyr.
- Gall cyflogwyr gael mynediad at gymorth sgiliau yn benodol ar gyfer busnesau, mewn pynciau megis datblygu staff, hyfforddiant a chyfleoedd twf.
- Nod y Portal yw ychwanegu gwerth, osgoi dyblygu, hyrwyddo cydweithredu ac annog arloesedd.
- Fel ased rhanbarthol a grëwyd y Portal gydag adborth defnyddwyr mewn golwg, a bydd yn parhau i wella yn seiliedig ar fewnbwn a pherfformiad defnyddwyr.

# *Camau Nesaf*

## Eich Adborth

Byddem yn gwerthfawrogi'n fawr eich adborth terfynol ar y Portal, neu os gallwch ein helpu i gael mynediad at ddysgwyr neu gyfranogwyr i gynnal profion pellach, cysylltwch â: **reesbrown@ambitionnorth.wales**

## Arddangos Cyflogwyr

Os hoffech gael eich arddangos fel cyflogwr ar y Portal neu'n ymwybodol o fusnes a fyddai'n elwa o hyn, cwblhewch neu rhannwch y ffurflen isod. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim, ac mae ar gael i gyflogwyr yng Ngogledd Cymru sydd â’r bwriad i helpu pobl i ddarganfod ystod eang o gyfleoedd gyrfa a'r sgiliau y mae galw amdanynt ar draws gwahanol sectorau.
**Ffurflen Arddangos Cyflogwyr**

**Cysylltiadau Defnyddiol:**

- reesbrown@ambitionnorth.wales
- info@rspnorth.wales

NORTH WALES **SKILLS**
portal
**SGILIAU** GOGLEDD CYMRU